COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 229

**Amseru:**

**Teitl: Cymeradwyo prosiect wythnos Troseddau Casineb**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid / grantiau**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Mewn Cymeriad wedi cyflwyno cais grant i gyflwyno drama un person awr o hyd a fydd yn teithio o gwmpas ysgolion uwchradd targedig yn ardal heddlu Dyfed-Powys am wythnos yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2021. Bydd y darn hwn o theatr deithiol yn cael ei gefnogi gan weithdai o fewn yr ysgolion a fydd yn cael eu harwain gan Swyddogion Heddlu SchoolBeat ac yn derbyn cefnogaeth bellach gan ymgyrch yn y cyfryngau a'r wasg.

Mae'r cais wedi'i sgorio yn erbyn y matrics ac argymhellir bod CHTh yn rhoi cyfraniad o £8620 tuag at y prosiect. Bydd yr arian yn dod o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau, sy'n galluogi CHTh i roi rhoddion i elusennau a grwpiau cymunedol.

**Argymhelliad:**
Mae CHTh yn cymeradwyo rhodd o £8620 o'r gyllideb Deddf Elw Troseddau tuag at y prosiect Wythnos Troseddau Casineb.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 29.06.21**